**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

5 Hydref 2023

Annwyl Weinidog,

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi cael sawl darn o ohebiaeth yn ddiweddar yn ymwneud â gosod ceblau o dan y ddaear drwy aredig.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn am eglurhad gennych chi, yn y lle cyntaf, ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru am y dechnoleg hon. Yn arbennig, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

## Ymchwil i dechnolegau

Manylion unrhyw waith ymchwil neu astudiaethau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y technolegau sydd ar gael ar gyfer seilwaith ynni sy'n cael llai o effaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar aredig ceblau.

## Costau cymharol

Eich dealltwriaeth ddiweddaraf o gostau cymharol technolegau fel aredig ceblau, gan gynnwys costau sy'n cael eu hysgwyddo dros oes gyfan prosiect, gan gynnwys elfennau fel costau cynnal a chadw, colled ynni mewn perthynas â llinellau uwchben, a'r traul ychwanegol a wynebir gan beilonau sy'n agored i'r elfennau.

## Ôl troed carbon cymharol

Data neu ganfyddiadau ymchwil ar yr ôl troed carbon cymharol rhwng llinellau tanddaearol a llinellau uwchben.

Cydweithrediad rhyngwladol

Unrhyw drafodaethau neu ohebiaeth ynghylch prosiectau yn y DU ac yn rhyngwladol mewn perthynas â gosod ceblau dan ddaear drwy aredig.

Bydd y wybodaeth hon yn galluogi'r Pwyllgor i ystyried ei gamau nesaf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.